

08/0/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ddydd Gwener diwethaf, byddwn yn derbyn diweddariad ar y 19fed o Chwefror ar pryd a sut y gallwn ddisgwyl i ddisgyblion dychwelyd i'r ysgol. Golyga hyn, nid yw'n realistig i ddisgwyl y bydd disgyblion uwchradd yn dychwelyd cyn yr 8fed o Fawrth ar y cynharaf. Yn sicr rydym fel staff yn awyddus i weld ein disgyblion yn dychwelyd, er eu lles nhw, ond pan mae'n ddiogel i wneud. Unwaith eto, cyn gynted ag y bydd mwy o wybodaeth gennyf, byddaf yn cysylltu â chi gyda'r wybodaeth gywir ddiweddaraf.

Byddwn yn parhau gyda'r **diwrnod HMS sydd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Gwener y 12fed o Chwefror** - ar ddiwedd yr wythnos hon. Ni fydd gwersi ffurfiol i'r disgyblion, ond bydd yn gyfle da i gwblhau gwaith anorffenedig neu i adolygu gwaith a ddysgwyd yn ystod yr hanner tymor. Bydd y ddarpariaeth gwarchod argyfwng yn parhau, ond ni fydd unrhyw wersi ffurfiol yn yr ysgol. Bydd cyfle gan ddisgyblion sydd angen y ddarpariaeth yma i fynychu ac i barhau i weithio. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn yn dod ag unrhyw waith gyda hwy er mwyn ei gwblhau yn yr ysgol.

Yn sgil hyn, byddwn yn parhau gyda'n model o ddysgu o bell. Dylech erbyn nawr fod wedi derbyn **adroddiad cryno**, drwy e-bost 'Hwb' eich plentyn, sydd yn adlewyrchu ymrwymiad eich plentyn i ddysgu o bell yn ystod ail hanner mis Ionawr. Gobeithio y bydd hwn yn ddefnyddiol i chi wrth werthuso dysgu o bell eich plentyn yn ystod yr hanner tymor. Braf yw gweld bod canran uchel o'n disgyblion yn ymdrechu'n galed iawn ac yn llwyr ymrwymedig - mae angen eu canmol am hyn. Gwych hefyd yw gweld y gwelliant mae nifer o'n disgyblion, nad oeddent yn ymdopi cystal i ddechrau, wedi gwneud yn dilyn ymyrraeth ar y cyd gan staff yr ysgol a chithau fel rhieni. Yn anffodus, mae ychydig ddisgyblion yn parhau i weld dysgu o bell yn her a gofynnwn yn garedig i chi drafod yr anawsterau gyda'ch plentyn. Cofiwch ein bod yma i gefnogi a pheidiwch ag oedi cyn cysylltu os gallwn helpu?

Rydym o hyd yn aros am fanylion pellach y **fframwaith asesu ar gyfer pennu graddau canolfan eleni oddi wrth CBAC**, sydd yn debygiol o gyrraedd tuag at ddiwedd Chwefror. Cyn gynted a bydd y wybodaeth yn ein cyrraedd, byddwn yn rhannu ein cynlluniau yn sgil hyn gyda disgyblion blynyddoedd 10, 11, 12 a 13eg a gyda chi fel rhieni. Gweler y [llythyr yma](#) a rannwyd gan Gymwysterau Cymru ym mis Ionawr.

Wythnos ddiwethaf oedd **'Wythnos Iechyd Meddwl'** ac fe rannwyd llawer o wybodaeth ddefnyddiol gyda'r disgyblion er mwyn eu cefnogi i fod yn iach eu meddwl. Mae mynediad at y wybodaeth yma ar gael yn 'Teams' blwyddyn eich plentyn. A oes modd eu cyfeirio at y wybodaeth os oes angen cefnogaeth arnynt? Cofiwch gysylltu gyda ni hefyd os allwn helpu? Braf hefyd oedd dathlu **'Diwrnod Miwsig Cymru'** ddydd Gwener diwethaf – anogwch eich plant i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg er mwyn cyfoethogi eu profiadau o'r iaith



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



Gymraeg - mae llawer ar gael ar y llwyfannau arferol - itunes, spotify, youtube... Edrychaf ymlaen at glywed am eu hoff draciau!

Mae yfory (09.02.21) yn **'Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel'**, sydd yn addas tu hwnt o ystyried yr holl amser mae ein plant yn treulio ar eu sgriniau yn ddyddiol! Gwyddom am y peryglon di-ri all godi o ymddygiad anaddas a cham ddefnydd o'r rhyngrwyd; a fyddai modd i chi drafod y peryglon posib yma gyda'ch plentyn er mwyn eu cefnogi i fod yn ddiogel tra ar-lein? Mae peth adnoddau defnyddiol ar y ddwy ddolen isod: [Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel - Cadw'n ddiogel ar-lein - Hwb \(gov.wales\) Home - Safer Internet Day](#)

Byddwn yn cynnal gwasanaethau blwyddyn ar y thema benodol hon ar fore dydd Mercher y 10.02.21 am 08:40. A oes modd sicrhau bod eich plentyn yn mynychu yn rhithiol os gwelwch chi'n dda er mwyn derbyn a dysgu gwybodaeth allweddol am ddiogelwch ar-lein?

Rydym yn mynd i gynnal **Eisteddfod Ysgol Rithiol** eleni. Braf yw gallu dathlu ein diwylliant, er ar ffurf ychydig yn wahanol eleni! Diolch i staff yr Adran Gymraeg am drefnu'r cystadlaethau! Mae'r wybodaeth i'r disgyblion yn eu 'Teams' blwyddyn ac edrychwn ymlaen at weld a chlywed eu cyfraniadau i'r cystadlaethau diddorol a llawn hwyl! Byddwn yn paratoi cyflwyniad o'r cystadlaethau i'w rannu gyda'r disgyblion. Gwerthfawrogwn petaech yn gallu annog eich plentyn i gyfrannu. Yn yr un modd, byddwn yn trefnu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ar ôl hanner tymor.

Gobeithio y cewch gyfle fel teulu i ymlacio dros wyliau'r hanner tymor a chofiwch ein bod ar gael i gefnogi ein disgyblion ar unrhyw adeg, felly peidiwch ag oedi cyn cysylltu i gael sgwrs. .

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

